

# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Mercher, 19 Hydref 2022

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**

Y Cynghorwyr

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod

- 2.00 - 2.15 yp

## **1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## **2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 29ain O ORFFENNAF 2022**

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 29 Gorffennaf 2022 yn gofnod cywir.

## **3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Dywedodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion y gall yr holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddant yn eistedd a bydd eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros lywodraethwyr awdurdod lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gall Cynghorwyr Sirol enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgolion lle nad oes lle gwag ar hyn o bryd. Os bydd swydd llywodraethwr wedi'i ordanysgrifio, gall y Cyngor bennu pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol sy'n gorfod rhoi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD**, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrrff Llywodraethu:-

<b>Ysgol Gynradd</b>	<b>Penodiadau</b>
Ysgol Feithrin Rhydaman (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Betsan Jones
Y Bryn (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Gary Jones
Bryn Teg (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Sharen Davies
Y Bynea (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Mrs L Dunleavy
Cefneithin (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr R Culley
Dafen (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs F Healey-Benson
Pum Heol (0 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Alex Evans yn cymryd lle Mr J. Jones
Llangennech (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Mr A Gravell
Ffederasiwn Llechyfedach / y Tymbl (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Dot Jones
Myrddin (2 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr W. Rowberry
Parc y Tywyn (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Ms S L Thomas
Stebonheath (2 lle gwag – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Michael Cranham Ms L Trinkwon

<b>Ysgol Uwchradd</b>	<b>Penodiadau</b>
Ffederasiwn Bryngwyn / Glan-y-Môr (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Giles Morgan
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs C R Davies

#### 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG 2021-22

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried yr Adroddiad Blynyddol o ran yr iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22. Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith darparu, datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd a chafodd ei lunio er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Cyfeiriwyd at Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2021/22, a oedd yn cadarnhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol er mwyn ei gyhoeddi a'i hyrwyddo ar wefan y Cyngor.

---

**AELOD O'R CABINET**

---

**DYDDIAD**